



Gwybodaeth i gyflogwyr



Y Ganolfan
Dysgu Cymraeg
Genedlaethol —
National Centre
for Learning Welsh



Dysgu
Learn





Gwybodaeth i gyflogwyr



Y Ganolfan
Dysgu Cymraeg
Genedlaethol —
National Centre
for Learning Welsh



Gwybodaeth i gyflogwyr


Mae'r canllaw hwn yn amlinellu'r prif agweddau y dylai cyflogwyr ystyried wrth fynd ati i gynllunio i ddatblygu a chynyddu sgiliau Cymraeg eu gweithluoedd. Mae'r canllaw hefyd yn cynnig gwybodaeth ar gynllun newydd ac arloesol o'r enw Cymraeg Gwaith sy'n cynnig cyrsiau Cymraeg am ddim i gyflogwyr.





Cynnwys

01	Y Cyd-destun	4
02	Cynllunio eich sgiliau iaith	8
03	Cymraeg Gwaith – eglurhad o'r cynllun	22
04	Manteision Cymraeg Gwaith i'r cyflogwr	28
05	Cefnogi gweithwyr ar y daith ddysgu	30
06	Sut i fod yn weithle dwyieithog	38
07	Cymorth a chefnogaeth pellach	42





01

Y Cyd-destun

Mae statws y Gymraeg ym mywyd cyhoeddus Cymru wedi cynyddu'n sylweddol dros y degawdau diweddar. Cafwyd nifer o ddatblygiadau deddfwriaethol Cymreig yn y blynyddoedd diwethaf sydd wedi adeiladu ar y seiliau a osodwyd gan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993.

Y brif ddeddfwriaeth iaith gyfredol yw Mesur yr Iaith Gymraeg (Cymru) 2011. Mae'r ddeddf yn sefydlu'r Gymraeg yn iaith swyddogol yng Nghymru, ac yn cyflwyno Safonau Iaith Gymraeg y mae gofyn i nifer o gyrff a sefydliadau cyhoeddus Cymru gydymffurfio â nhw. Prif ddiben y Safonau yw sicrhau bod modd i aelodau o'r cyhoedd dderbyn gwasanaethau yn y Gymraeg.

Y ddeddf hon hefyd sefydlodd swydd Comisiynydd y Gymraeg. Mae dwy egwyddor yn sail i waith y Comisiynydd. Yn gyntaf,

ni ddylid trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg yng Nghymru; ac yn ail, y dylai personau yng Nghymru allu byw eu bywydau drwy gyfrwng y Gymraeg os ydynt yn dymuno gwneud hynny.

Mae nifer cynyddol o ddeddfau Cymreig eraill sy'n sicrhau statws y Gymraeg ac yn hyrwyddo ei chynnydd. Ymhlith y rhain mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 sy'n gosod nodau cyffredin y

Mae Cymraeg Gwaith yn cynnig cyfleoedd i ddysgu Cymraeg ar bob lefel i alluogi mwy o ddefnydd o'r Gymraeg yn y gweithle.

mae'n ddyletswydd statudol ar sefydliadau yng Nghymru eu hyrwyddo. Un o'r saith nod llesiant yw sicrhau diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu. Mae'r nod hwn yn plethu gyda nifer o agweddau ar y Safonau, yn enwedig yng nghyswllt awdurdodau lleol, Parciau Cenedlaethol a Llywodraeth Cymru – cyrff sy'n gorfod llunio a gweithredu Safonau Hybu mewn perthynas â'r Gymraeg.

Ceir strategaethau a chanllawiau polisi mewn sawl maes penodol – e.e. iechyd a gofal, addysg a chynllunio defnydd tir – strategaethau a chanllawiau polisi sy'n gosod arweiniad cadarn ynghylch hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg, cefnogi ei hyfywedd cymdeithasol a darparu gwasanaethau Cymraeg. Ymhlith y strategaethau hyn mae strategaeth genedlaethol Llywodraeth Cymru 'Cymraeg 2050 – miliwn o siaradwyr Cymraeg'.

Mae'r gofynion deddfwriaethol a pholisi hyn yn golygu bod angen i sefydliadau yng Nghymru sicrhau bod ganddyn nhw'r sgiliau iaith angenrheidiol i ateb y gofynion statudol ynghylch y Gymraeg a'r galw gan y cyhoedd am wasanaethau Cymraeg, a hynny ar draws eu darpariaeth.

Wrth ymateb yn gadarnhaol i'r gofynion hyn mae sefydliadau yng Nghymru eisoes wedi gweld buddiannau a manteision sylweddol. Mae cydnabod a chynyddu gallu ieithyddol eu gweithluoedd yn golygu eu bod yn medru ymateb yn well i anghenion eu cwsmeriaid, gan ychwanegu gwerth amlwg i'w gwasanaethau.

Sefydlwyd y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol yn 2016 i gynnal cyfeiriad strategol i'r rhaglen addysg Cymraeg i Oedolion. Yn hanesyddol, mae'r cyfleoedd sydd ar gael i ddysgu Cymraeg wedi canolbwyntio'n bennaf ar gynnig dosbarthiadau o fewn y gymuned. Dros y blynyddoedd diweddar, bu nifer cynyddol o gyflogwyr yn darparu cyfleoedd mewnol i'w staff ddysgu Cymraeg yn y gweithle. Adeiladu ar y datblygiad hwnnw a wna Cymraeg Gwaith. Mae Cymraeg Gwaith yn rhoi sylw penodol i anghenion cyflogwyr ac yn cynnig hyfforddiant i weithwyr o fewn eu cyd-destun gwaith. Mae Cymraeg Gwaith yn cynnig ystod o gyfleoedd i ddysgu Cymraeg ar bob lefel, cyfleoedd a fydd yn galluogi gweithwyr i ddefnyddio'r Gymraeg yn gynyddol yn eu gwaith bob dydd.







Cynllunio eich sgiliau iaith

Mae sgiliau Cymraeg yn sgiliau sydd eu hangen mewn sefydliadau ar draws Cymru er mwyn diwallu gofynion y cyhoedd sy'n siarad Cymraeg, ynghyd â chydymffurfio â gofynion statudol a chanllawiau polisi. Mae angen i sefydliadau ymateb i'r angen am sgiliau Cymraeg yn drefnus, yn gydlynus ac yn adeiladol, gan wneud hynny mewn modd cyson ar draws y sefydliad.

Un dull cyffredin o wneud hynny yw drwy fabwysiadu Strategaeth Sgiliau Iaith (SSI) neu Strategaeth Sgiliau Dwyieithog. Mae SSI yn galluogi sefydliad i gynllunio lefelau digonol o sgiliau iaith Gymraeg ymhlith ei weithlu er mwyn ymateb i ofynion y rhai sy'n defnyddio ei wasanaeth. Canolbwyntio ar sgiliau Cymraeg y

gweithlu wna SSI fel arfer. Ond ar ôl datblygu SSI yng nghyswllt y Gymraeg, gall sefydliad ei defnyddio i sicrhau ystod o sgiliau digonol mewn Saesneg ac ieithoedd eraill hefyd.

Mae tair elfen sylfaenol i SSI:

- adnabod anghenion iaith eich sefydliad,
- adnabod sgiliau iaith y gweithlu, a
- chynllunio i gynnal a chynyddu sgiliau'r gweithlu i ateb yr anghenion.

Yn ogystal â'r tair elfen hynny, gallai SSI gynnwys disgrifiad o'r cyd-destun polisi yng nghyswllt y sefydliad a'r prosesau rheoli a gweithredu. Gallai hefyd gynnig canllawiau i weithredu'r strategaeth yn gyson ar draws y sefydliad.

Adnabod anghenion iaith y sefydliad

Mae iaith yn llawer o bethau – yn gyfrwng cyfathrebu, yn symbol treftadaeth, yn nod hunaniaeth, yn gyfrwng perthyn, yn allwedd i lenyddiaeth a chelfyddyd ac yn gerbyd i ddiwylliant cyffredin. Ar lefel weithredol mae iaith hefyd yn sgil – ac fel pob sgil y mae gallu unigolion i'w defnyddio yn amrywio'n fawr.



Mae gan bob unigolyn ystod o gymwyseddau iaith (language competences). Ceir pedair agwedd ar sgiliau iaith – deall, siarad, darllen ac ysgrifennu. Fel rheol, mae mwy o bobl yn deall iaith nag sy'n ei siarad, mwy yn ei siarad nag sy'n ei darllen, a mwy yn ei darllen nag sy'n ei hysgrifennu. Yn gyffredinol, hefyd, mae'r bwlch rhwng y gallu i siarad iaith a'r gallu i'w sgrifennu a darllen yn dueddol o fod yn fwy yng nghyswllt ieithoedd lleiafrifol a rhanbarthol – ieithoedd sydd, yn aml, heb gael eu defnyddio i ddibenion swyddogol dros gyfnod o amser. Ymhlith y rhai sy'n siarad ieithoedd llai a rhanbarthol, mae hunanhyder llawer ohonynt yn eu gallu ieithyddol eu hunain yn isel yn aml iawn.

Bydd llawer ohonynt yn teimlo nad ydynt yn medru defnyddio eu hiaith eu hunain gystal ag y maent yn gallu siarad ac ysgrifennu yn yr iaith fwyafrifol. Mae hyder a diffyg hyder yn chwarae rhan fawr yn narlun ieithyddol y Gymraeg a chanfyddiad ei siaradwyr o'u gallu.

Defnyddir y term 'cymhwysedd iaith' (language competence) yn y cyswllt hwn sef yr wybodaeth a'r gallu digonol i gyflawni tasg benodol yn effeithiol ac effeithlon. Sgîl at bwrpas penodol, felly, yw cymhwysedd. A dyna ffocws Cymraeg Gwaith – ennill cymwyseddau er mwyn defnyddio'r Gymraeg at ddibenion gwaith bob dydd.

Wrth wasanaethu'r cyhoedd mae sefydliad a'i staff yn defnyddio amrediad o sgiliau iaith – o sgiliau deall ac ymateb sylfaenol i'r sgiliau uwch sydd eu hangen er mwyn trafod pynciau technegol cymhleth a llunio adroddiadau manwl. Y cam cyntaf mae angen i sefydliad ei gymryd wrth ddatblygu SSI yw penderfynu pa lefelau o gymwyseddau iaith, yn ôl y pedair agwedd ieithyddol, sydd eu hangen mewn adrannau, timau a swyddi penodol i alluogi'r sefydliad i gyflawni ei swyddogaethau'n effeithiol ac effeithlon.

**Mae Strategaeth Sgiliau
iaith yn galluogi sefydliad i
flaengynllunio'n effeithiol.**

White Ribbon Campaign
action against violence towards women

Ymgyrch Rhuban Wen
gweithredu'n erbyn trais tuag at ferched

Vision, Mission & Values

Our Vision
"To make South Wales safer by reducing risk."

Our Mission
• Serving our community needs
• Working with others
• Facing challenges through innovation and improvement
• Reducing risk through education, enforcement and response
• Maintaining high standards of service

Gweledigaeth, Cenhadaeth & Gwerthoedd

Ein Gweledigaeth
"I wneud De Cymru'n ddiogelach wrth leihau risg."

Ein Cenhadaeth
Gwasanaethu anghenion ein cymunedau
Gweithio gydag eraill
Wynebu heriau drwy ariannu
Lleihau risg wrth ariannu
Llysoedd i wneud

SAFETY AWARENESS - REDUCING RISK

Proffesiynol

Grymus

Pwrpasol

Disgybledig

Dibynadwy

Dedicated

Hydwyth



Fframweithiau cymwyseddau iaith

Ceir fframweithiau cyffredin a ddefnyddir mewn gwledydd ar draws Ewrop i ddiffinio cymwyseddau iaith. Mae'r fframweithiau hyn yn cynnwys datganiadau sy'n disgrifio gweithredoedd penodol - gelwir y rhain yn 'ddatganiadau gallu' (can-do statements).

Un o'r fframweithiau canolog yn y cyswllt hwn yw'r Fframwaith Gyfeirio Ewropeaidd Gyffredin ar gyfer Ieithoedd (Common European Framework of Reference for Languages (CEFR)). Mae fframwaith y CEFR yn nodi chwech lefel o gymhwysedd yng nghyswllt y pedair agwedd ieithyddol. Fframwaith arall gyffredin yw'r fframwaith a hyrwyddir gan Gymdeithas Profwyr Iaith yn Ewrop (Association of Language Testers in Europe (ALTE)) sy'n cydweddu i raddau helaeth â fframwaith CEFR.

Mae'r fframweithiau hyn wedi cael eu haddasu gan nifer o sefydliadau cyhoeddus yng Nghymru er mwyn creu arfau pwrpasol i adnabod eu hanghenion ieithyddol yng nghyswllt y Gymraeg. Fodd bynnag, erbyn hyn

mae'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol wedi cyhoeddi Cwricwlwm Cenedlaethol Cymraeg i Oedolion sy'n dilyn y lefelau yn fframwaith y CEFR. Mae'r Cwricwlwm i'w weld ar dysgucymraeg.cymru.

Mae Cyd-bwyllgor Addysg Cymru (CBAC) yn cynnig cymwysterau Cymraeg i Oedolion ar bedair lefel: Mynediad, Sylfaen, Canolradd, Uwch. Er mwyn sicrhau bod pobl yng Nghymru'n dod yn fwy cyfarwydd â labelau'r CEFR, bydd adnoddau'r Ganolfan Genedlaethol ac arholiadau CBAC yn cynnwys y cyfeiriadau a welir yn y tabl isod o hyn ymlaen. Mae'r

fframwaith hefyd yn cydweddu â Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru.¹

Cymwysterau CBAC/CDCG	Fframwaith CEFR
Mynediad	A1
Sylfaen	A2
Canolradd	B1
Uwch	B2
Hyfedredd	C1

Defnyddiwch Fframwaith Cymwyseddau Iaith i ddynodi gofynion ieithyddol swyddi

¹ <http://gov.wales/topics/educationandskills/qualificationsinwales/creditqualificationsframework/?skip=1&lang=cy>



Yn gryno, mae'r lefelau yn cynrychioli'r galluoedd canlynol:

Lefel Mynediad (A1)

- Gallu deall a defnyddio ymadroddion llafar syml pob dydd.
- Gallu eich cyflwyno eich hun ac eraill ar lafar, gallu gofyn ac ateb cwestiynau am wybodaeth syml, e.e. ble mae rhywun yn byw a gweithio, beth maen nhw'n hoffi ei wneud, gallu trafod manylion personol, amserau a rhifau.
- Gallu deall testunau ysgrifenedig byr lle mae pobl yn rhoi gwybodaeth personol syml amdanynt eu hunain neu eraill, e.e. ar ffurflenni.
- Trosglwyddo neges ysgrifenedig syml neu wneud cais syml, e.e. trwy e-bost.

Lefel Sylfaen (A2)

- Gallu deall brawddegau pan fydd pobl yn siarad yn araf am sefyllfaoedd pob dydd, e.e. gwybodaeth personol a theuluol syml, trafod materion syml am y gwaith gan gynnwys beth mae pobl wedi ei wneud neu'r hyn y bydden nhw'n ei wneud.

- Gallu cynnal sgwrs syml am bynciau cyffredin e.e. pethau sydd wedi digwydd neu gynlluniau yn y dyfodol.
- Gallu deall negeseuon ysgrifenedig am bethau bob dydd a llythyron/negeseuon e-bost syml.
- Gallu ysgrifennu negeseuon byr at gydweithwyr e.e. i drosglwyddo neges.

Lefel Ganolradd (B1)

- Gallu deall y prif bwyntiau pan fydd rhywun yn siarad am bynciau pob dydd o fewn a thu allan i'r gweithle, neu pan fydd materion gwaith yn cael eu trafod, e.e. mewn sgwrs, neu mewn cyfarfod grŵp bach.
- Gallu cynnal sgwrs estynedig â siaradwr rhugl am bwnc cyfarwydd sy'n ymwneud â bywyd pob dydd, e.e. diddordebau,



Bwriad Cymraeg Gwaith yw cryfhau sgiliau iaith Gymraeg sefydliadau ar draws Cymru

teithio, neu bynciau sy'n ymwneud â'r gwaith yn uniongyrchol.

- Gallu disgrifio profiadau a digwyddiadau, gobeithion ac uchelgeisiau, a rhoi esboniadau a rhesymau cryno dros eich barn a'ch cynlluniau.
- Gallu deall erthyglau neu negeseuon e-bost uniongyrchol am bynciau pob dydd neu bynciau'n ymwneud â'r gwaith.
- Gallu ysgrifennu llythyr/e-bost ar y rhan fwyaf o bynciau, gofyn am bethau, rhoi gwybodaeth, gwahodd rhywun neu drefnu digwyddiad.

Lefel Uwch (B2)

- Gallu dilyn y rhan fwyaf o sgysiau neu drafodaethau fel arfer, hyd yn oed am bynciau anghyfarwydd, oni bai bod rhywun yn siarad ag acen gref, anghyfarwydd, e.e. mewn cyd-destun cynhadledd neu'n siarad am bwnc technegol neu arbenigol iawn.
- Gallu siarad yn hyderus â siaradwyr rhugl am bynciau cyfarwydd sy'n ymwneud â bywyd pob dydd neu'r gwaith, ac yn gallu mynegi barn, cymryd rhan mewn trafodaeth, a siarad yn helaeth am bynciau cyffredin, e.e. mewn cyfarfod, neu mewn sefyllfa un-i-un.

- Gallu deall y rhan fwyaf o ohebiaeth, erthyglau papur newydd ac adroddiadau sydd wedi eu bwriadu ar gyfer siaradwyr rhugl, gyda chymorth geiriadur, a sganio trwy destunau hir i gael hyd i fanylion.
- Gallu ysgrifennu erthyglau byr, llythyrau busnes neu adroddiadau am amrywiaeth o bynciau cyffredinol eu natur, neu sy'n ymwneud â'r gwaith, ac ymateb yn gywir i'r rhan fwyaf o ohebiaeth gan gysylltwyr mewnol neu allanol, efallai gyda chymorth golygyddol.

Lefel Hyfedredd (C1)

- Deall yn hawdd bron popeth sy'n cael ei glywed neu ei ddweud.
- Siarad yn estynedig am faterion cymhleth, cyflwyno dadleuon, ac arwain trafodaethau.
- Crynhoi gwybodaeth o wahanol ffynonellau llafar ac ysgrifenedig, ail-greu dadleuon a disgrifiadau mewn cyflwyniad cydlynus.
- Eich mynegi eich hun yn rhugl ac yn fanwl, gan addasu arddull eich iaith yn ôl y gynulleidfa, e.e. mewn cyd-destun ffurfiol neu anffurfiol.

Mae copi llawn o fframwaith cymwyseddau ar gael ar dysgucymraeg.cymru/cyrsiau/lefelau/.

Pennu anghenion iaith swyddi

Gallwch ddefnyddio'r fframwaith cymwyseddau iaith i bennu anghenion iaith swyddi o fewn sefydliad.

Un ymagwedd gyffredin yw mynd ati i bennu anghenion iaith swyddi ar sail timau gwaith. Hynny ydy, bod angen i'r tîm gwaith feddu ar gyfuniad a/neu leiafswm o gymwyseddau iaith ar lefelau penodol. Wrth benderfynu ar

broffil cymwyseddau iaith y tîm dylid ystyried natur maes gwaith y tîm, swyddogaethau'r tîm, natur ei gwsmeriaid/cleientiaid, natur ei gyswllt â'i gyhoedd ac ymrwymïadau'r sefydliad yng nghyswllt Safonau'r Gymraeg. Er enghraifft:

- Ydy'r tîm yn darparu gwasanaethau yn uniongyrchol i'r cyhoedd ac i ba raddau?
- Beth yw proffil ieithyddol yr ardal neu'r sector y mae'n darparu ar ei gyfer?
- I ba raddau mae'n darparu gwasanaethau i blant neu bobl sy'n agored i niwed?
- Beth sy'n ofynnol gan y tîm yn nhermau sicrhau bod y sefydliad yn cydymffurfio â'r Safonau mewn perthynas â'r Gymraeg?
- Faint o sgiliau Cymraeg sydd ar gael o fewn y tîm ar hyn o bryd?

Mae defnyddio'r fframwaith cymwyseddau i adeiladu proffil iaith timoedd ac adrannau yn newid o'r ymagwedd hanesyddol sy'n trafod sgiliau iaith mewn modd gorsym (o ran 'medru' neu 'fethu' siarad iaith benodol).

Yn y blynyddoedd diweddar bu i rai sefydliadau symud oddi wrth yr arfer o nodi'n gyffredinol

fod sgiliau Cymraeg yn hanfodol, yn ddymunol neu angen eu dysgu – gan bennu yn hytrach lefel cymhwysedd benodol ar gyfer pob swydd. Mae Comisiynydd y Gymraeg wedi adfer yr arferiad o gategoreiddio anghenion iaith mewn perthynas â chymwyseddau penodol o fewn cyd-destun Safonau'r Gymraeg.

Mae Safon 136 yn nodi:

"Pan fyddwch yn asesu'r anghenion ar gyfer swydd newydd neu swydd wag, rhaid ichi asesu'r angen am sgiliau yn y Gymraeg, a'i chategoreiddio fel swydd pan fo un neu ragor o'r canlynol yn gymwys - (a) bod sgiliau yn y Gymraeg yn hanfodol; (b) bod angen dysgu sgiliau yn y Gymraeg pan benodir rhywun i'r swydd; (c) bod sgiliau yn y Gymraeg yn ddymunol; neu (ch) nad yw sgiliau yn y Gymraeg yn angenrheidiol".

At hynny, dywed Safon 136A:

"Os byddwch wedi categoreiddio swydd fel un sy'n gofyn bod sgiliau yn y Gymraeg yn hanfodol, yn ddymunol neu fod angen eu dysgu, rhaid ichi - (a) pennu hynny wrth hysbysebu'r swydd, a (b) hysbysebu'r swydd yn Gymraeg".

Yn unol â hynny, felly, gellir defnyddio'r disgrifiadau 'hanfodol', 'dymunol', 'angen eu dysgu' neu 'amherthnasol' wrth hysbysebu swyddi gwag.

Adnabod sgiliau iaith eich gweithlu

Yr ail gam wrth greu SSI yw adnabod sgiliau iaith y gweithlu. Gellir gwneud hyn ar sail y fframwaith cymwyseddau iaith cenedlaethol.

Un dull cyffredin yw cynnal ymarferiad hunanasesu. Gellir gwneud hyn drwy gynnal arolwg gan ddefnyddio meddalwedd sydd ar gael yn fasnachol neu feddalwedd pwrpasol y sefydliad. Yn aml, cyplysir yr ymarferiad hunanasesu gyda phrotocolau eraill ynghylch casglu gwybodaeth am y gweithlu.

Nodwyd eisoes fod hyder yn ffactor cyffredin yng nghyswllt ieithoedd llai a rhanbarthol. Oherwydd hynny, mae unigolion yn tueddu i danbriso lefel eu sgiliau iaith yn y Gymraeg. O ganlyniad, yn ogystal â chynnal ymarferiad hunanasesu mae hi'n werth ategu'r ymarferiad

hwnnw drwy drafodaeth adeiladol rhwng aelod o staff a'i reolwr, tiwtor neu swyddog arall priodol. Gall trafodaeth, ar sail y fframwaith cymwyseddau iaith cenedlaethol, fod yn rhan o brosesau arfarnu arferol y sefydliad.

Yr Erfyn Diagnostig

Un arf defnyddiol sydd ar gael i sefydliadau yn y cyswllt hwn yw Erfyn Diagnostig y Ganolfan Genedlaethol. Mae'r erfyn yn galluogi dysgwyr i asesu eu sgiliau darllen, ysgrifennu, gwrando a siarad. Bydd y defnyddiwr yn derbyn canlyniad ar sail fframwaith cymwyseddau cwricwlwm y Ganolfan Genedlaethol sy'n dynodi lefel Mynediad, Sylfaen, Canolradd, Uwch neu Hyfedredd iddynt.

Mae'r Erfyn Diagnostig yn cael ei ddatblygu gan y Ganolfan Genedlaethol i ymateb i anghenion cyflogwyr. Bydd ar gael o dysgucymraeg.cymru. Mae'r Erfyn Diagnostig hefyd yn gymorth parod i gyflogwyr gyflawni gofynion Llywodraeth Cymru yng nghyswllt y Safonau Iaith Gymraeg.

Ieithoedd eraill


Mae datblygu SSI yng nghyswllt yr iaith Gymraeg yn medru bod yn gyfrwng i sefydliad

holi ei hunan ynghylch cymwyseddau iaith ei weithlu mewn perthynas ag ieithoedd eraill - gan gynnwys Saesneg.

Mae modd cymryd cymwyseddau mewn iaith fwyafrifol fel Saesneg yn ganiataol. Fodd bynnag, gall sefydliad elwa o gynnal asesiadau rheolaidd o lefel cymwyseddau staff mewn Saesneg, yn enwedig mewn perthynas â chymwyseddau darllen ac ysgrifennu.

Mewn cymdeithas sy'n gynyddol amlddiwylliannol, gall fframweithiau cymwyseddau iaith fod yn ddefnyddiol hefyd yng nghyswllt ieithoedd eraill a siaradir o fewn y gymuned leol, e.e. Pwyleg, Rwmaneg neu ieithoedd a ddefnyddir gan gymunedau a rhwydweithiau o bobl dduon ac Asiaidd eu tras.

Mae'n arfer da i ddarparu gwasanaethau mewn ieithoedd heblaw Cymraeg a Saesneg, er nad oes gofynion statudol cyffredinol i wneud hynny. Fodd bynnag, mae yna ofynion statudol yng nghyswllt y Gymraeg a disgwyliadau arferol cyffredinol ynghylch darparu gwasanaethau yn Saesneg. Mae'r Gymraeg a'r Saesneg yn ieithoedd swyddogol yng Nghymru.



**Mae'r Erfyn Diagnostig
ar gael i gyflogwyr i'w
ddefnyddio'n rhad ac am
ddim.**



Cynllunio i gynnal a chynyddu sgiliau'r gweithlu

Ar ôl sefydlu proffil anghenion ieithyddol a chynnal asesiad o sgiliau iaith staff, mae modd adnabod unrhyw fylchau yng nghymwyseddau iaith y gweithlu. Mae modd i sefydliad fynd ati wedyn i gynllunio er mwyn cau'r bylchau a chynnal a chynyddu'r sgiliau a'r cymwyseddau hynny.

Ceir tair ffordd sylfaenol o gau'r bwlch sgiliau hyn:

- penodi unigolion cymwys i swyddi gwag,
- ad-drefnu swyddi er mwyn adleoli unigolion cymwys mewn timoedd penodol, a
- hyfforddi cyflogeion cyfredol, gan gynyddu eu sgiliau a'u cymwyseddau iaith.

Mae penodi unigolion cymwys i swyddi gwag yn un ffordd o lanw'r bwlch sgiliau. Wrth recriwtio, gall yr hysbyseb swydd ofyn am lefel benodol o gymhwysedd iaith – ar yr amod bod modd cyfiawnhau hynny ar sail eich proffil anghenion ieithyddol.

Dylai cynllun hyfforddiant iaith Gymraeg eich sefydliad amlygu gweledigaeth ac amcanion y sefydliad.

Cynllun hyfforddi iaith

Mae datblygu cynllun hyfforddi iaith yn cynorthwyo sefydliad i gau bwlch sgiliau iaith y sefydliad mewn modd bwriadol a chydlynus. Yn ddelfrydol, dylai eich cynllun hyfforddi iaith – a fydd yn elfen ganolog o'ch SSI – gydweddu a chydblethu â systemau a phrosesau eraill y sefydliad o ran sicrhau datblygiad proffesiynol eich staff. Dylai fod yn rhan ganolog o unrhyw Strategaeth Dysgu a Datblygu corfforaethol.

Dylai cynllun hyfforddiant iaith Gymraeg eich sefydliad adnabod y cyrsiau sydd ar gael i weithwyr a sut y gallent gael mynediad i'r cyrsiau hynny.

Dyma awgrymiadau am yr hyn y gellid ei gynnwys mewn cynllun hyfforddi iaith:

Adran Strategol

Cyd-destun: Amlinellwch sefyllfa'r sefydliad a chyfeirio at ddogfennau polisi perthnasol. Gellid hefyd gynnwys gwybodaeth sylfaenol ynghylch proffil iaith yr ardal/ardaloedd ble mae'r sefydliad yn gweithredu a phroffil iaith y cwsmeriaid. Gellid hefyd gynnwys esboniad o'r modd y mae'r cynllun hyfforddi yn ymateb i'r gofynion deddfwriaethol gan gynnwys Safonau'r Gymraeg, ac yn cyfrannu at weithredu Strategaeth Llywodraeth Cymru ar y Gymraeg.

Nod: Byddwch yn glir am y nod; e.e. cryfhau sgiliau iaith Gymraeg gweithwyr fel eu bod yn gallu darparu gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg i gwsmeriaid a chydymffurfio â Safonau'r Gymraeg.

Amcanion: Nodwch amcanion cyraeddadwy a mesuradwy er mwyn cyrraedd y nod, e.e.:

- sicrhau bod siaradwyr rhugl yn medru ysgrifennu cofnodion a llythyrau a gwneud cyflwyniadau yn Gymraeg;
- sicrhau bod pob ymwelydd â'r swyddfa yn derbyn gwasanaeth yn eu dewis iaith; a
- sicrhau y gall pob defnyddiwr gwasanaeth dderbyn y gwasanaeth hwnnw drwy gyfrwng y Gymraeg.

Adran Weithredol

Rhaglen Hyfforddi: Amlinellwch y ddarpariaeth sydd ar gael i'r gweithlu.

Cyfrifoldebau: Disgrifiwch beth a ddisgwylir gan wahanol aelodau o'r tîm staff – yn uwch reolwyr, swyddogion hyfforddi, rheolwyr llinell ac ati.

Mesur llwyddiant: Rhestrwch y targedau a'r meini prawf ynghyd â gwybodaeth ynghylch sut y bydd y cynllun yn cael ei fonitro a'i werthuso.

Gellid hefyd gynnwys **elfennau gweithredol** eraill megis:

- manylion cyllidebol ac ariannol,
- trefniadau ynghylch amserau a lleoliadau dysgu,
- amserlen strategol, a
- manylion am gefnogaeth i ddysgwyr.

Ceir arweiniad pellach ar sut i ddatblygu cynllun hyfforddi iaith yn y ddogfen 'Canllawiau ar gyfer trefnu hyfforddiant iaith Gymraeg yn y gweithle', a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru yn 2007.



Rhoi'r SSI ar waith

Fel sy'n wir am bob datblygiad polisi newydd, wrth roi'r SSI ar waith rhaid sicrhau bod staff yn derbyn arweiniad polisi cryf a chadarn gan gorff llywodraethol ac unigolion arweiniol o fewn y sefydliad. Bydd rhoi arweiniad cadarn i staff ac eglurhad o'r rhesymau am unrhyw newidiadau i'w harferion gwaith neu ddiwylliant y sefydliad, yn cynorthwyo gosod y SSI ar waith. Mae'n arfer da, felly, i gynnwys cymdeithasau proffesiynol ac undebau llafur yn y broses ymgynghori cyn mynd ati i weithredu'r strategaeth. Mae'n bwysig bod pryderon a rhwystrau'n cael eu tawelu a'u goresgyn cyn mynd ati i weithredu'r SSI.





03

Cymraeg Gwaith – eglurhad o'r cynllun

Rhagarweiniad

Mae Cymraeg Gwaith yn gynllun a ddatblygwyd gan y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol gyda nawdd Llywodraeth Cymru. Mae'r cynllun yn cefnogi strategaeth y Llywodraeth 'Cymraeg 2050 – miliwn o siaradwyr'.

Mae Cymraeg Gwaith yn gynllun cenedlaethol newydd sy'n cynnig hyfforddiant iaith Gymraeg wedi ei gyllido'n llawn ar gyfer gweithwyr ynghyd â chefnogaeth a chynghor i gyflogwyr.

Mae Cymraeg Gwaith yn cynnwys pedair elfen:

- Gwasanaeth Gwybodaeth i gyflogwyr **Cymraeg Gwaith**
- Cwrs ar-lein i ddechreuwyr **Croeso Cymraeg Gwaith**
- Cyrsiau dwys **Dysgu Cymraeg Gwaith**
- Cyrsiau preswyl pum niwrnod i wella hyder a magu sgiliau **Defnyddio Cymraeg Gwaith**

Gwasanaeth gwybodaeth i gyflogwyr

Bydd y Ganolfan Genedlaethol yn cynnig cyngor a chefnogaeth i gyflogwyr sy'n cynnwys:

- Sesiwn wybodaeth am yr iaith Gymraeg,
- Pecynnau gwybodaeth i gyflogwyr a gweithwyr (mae'r pecyn yma'n rhan o'r gwasanaeth),
- Cefnogaeth a chynghor ar asesu sgiliau gan gynnwys defnydd o'r Erfyn Diagnostig.

Mae'r Sesiynau gwybodaeth yn addas ar gyfer uwch swyddogion a gwneuthurwyr polisi. Bwriad y sesiynau yw rhannu gwybodaeth ynghylch:

- y cefndir polisi cyfredol ynghylch statws y Gymraeg a'r angen i ddatblygu gweithluoedd cynyddol ddwyieithog;
- yr hyn sydd ar gael o fewn cynllun Cymraeg Gwaith a'i fanteision i'r cyflogwr;

- amlinelliad o gynnwys y pecyn gwybodaeth hwn;
- enghreifftiau o arferion da a manteision ar sail profiad cyflogwyr.

Cysylltwch â'r Ganolfan Genedlaethol ar 0300 3234324 neu cymraeggwaith@dysgucymraeg.cymru i archebu sesiwn.

Croeso Cymraeg Gwaith

Dyma gwrs 10 awr ar-lein i alluogi dechreuwyr i ddysgu cyfarchion ac ymadroddion Cymraeg syml sy'n addas i'r gweithle.

Erbyn diwedd y cwrs, bydd y gweithwyr yn gallu:

- ynganu enwau pobl, teitlau ac enwau llefydd yn ddigon cywir i gael eu deall gan siaradwyr cydymdeimladol;
- cyflwyno eu hunain;
- dechrau sgwrs a'i gorffen yn briodol;
- defnyddio a deall ymadroddion pob dydd cyfarwydd, e.e. cyfarchion, diolch, gofyn am baned;

- rhoi manylion personol elfennol iawn, e.e. enw, enw'r cwmni, cyfeiriad;
- canfod dewis iaith cwsmer;
- trosglwyddo galwad ffôn i siaradwyr Cymraeg;
- deall a defnyddio cyfarchiadau anffurfiol dwyieithog wrth agor a chau cyfarfodydd, wrth ateb y ffôn, neu wyneb yn wyneb;
- dangos cwrteisi wrth ddelio ag ymholiadau Cymraeg;
- deall ymholiadau cymdeithasol syml;
- deall unrhyw ymadroddion a ddefnyddir yn gyson yn y gweithle os yw'r siaradwr Cymraeg yn siarad yn araf;
- deall geiriau sylfaenol perthnasol i'w man gwaith; e.e. swyddfa/cyfarfod.

Mae'r cwrs wedi ei drefnu yn 10 uned a gall unigolion ddilyn y cwrs ar unrhyw ddyfais electroneg. Argymhellir dilyn o leiaf un uned 1 awr o hyd bob wythnos ond gellir addasu hwn i weddu'r unigolion.

Ar ddiwedd y cwrs ceir asesiad syml fydd yn cydnabod llwyddiant y gweithiwr. Bydd Pecyn Llongyfarch yn cael ei anfon ar gwblhau'r cwrs a bydd yn cynnwys crynodeb

o'r ymadroddion a'r eirfa a ddysgwyd. Bydd y pecyn hefyd yn cynnwys gwybodaeth am sut gall y gweithiwr barhau i ddysgu gyda'r cynllun Cymraeg Gwaith neu trwy wersi Cymraeg gan un o ddarparwyr y Ganolfan Genedlaethol yn y gymuned neu yn y gweithle.

Mae'r pecyn hefyd yn cynnwys 'tystysgrif cwblhau' y gellid ei ddefnyddio fel rhan o gynllun Datblygu Proffesiynol Parhaus (DPP) y gweithiwr.

Bydd nodyn o lwyddiant y gweithiwr hefyd yn cael ei anfon at y cyflogwyr gyda chyngor am sut i barhau i gefnogi'r gweithiwr i ddysgu a defnyddio'r Gymraeg.

Mae modd cyrchu'r cyrsiau hyn ar dysgucymraeg.cymru. Bydd rhaid i gyflogwyr gofrestru cyn i weithwyr gael mynediad i'r cwrs.





Mae Cymraeg Gwaith yn gynllun newydd sy'n cynnig hyfforddiant iaith Gymraeg i weithwyr sydd wedi ei gyllido'n llawn.

Dysgu Cymraeg Gwaith: Cwrs dwys

Dilyn cyrsiau dwys dros gyfnod estynedig yw'r ffordd orau o wneud cynnydd cyflym wrth ddysgu Cymraeg. Gellir darparu cyrsiau dwys y cynllun Cymraeg Gwaith ar unrhyw lefel a chaiff eu teilwra i ofynion gyflogwyr.

Caiff y cyrsiau eu darparu yn lleol i'r gweithle gan un o ddarparwyr y Ganolfan Genedlaethol. Bydd uchafswm o 15

person ym mhob dosbarth. Bydd y cwrs yn cynnwys terminoleg sy'n berthnasol i'r gweithle ac yn galluogi dysgwyr i ddysgu Cymraeg sy'n addas ar gyfer cyd-destun gwaith.

Defnyddio Cymraeg Gwaith: Cwrs preswyl 5 diwrnod

Nod y cwrs yma yw datblygu sgiliau fel bod unigolion yn dod yn fwy hyderus i allu defnyddio'r Gymraeg sydd ganddynt.

Cynhelir y cyrsiau yn Nant Gwrtheyrn, canolfan iaith arbenigol ym Mhen Llŷn sy'n cyd-weithio gyda dau leoliad arall i gynnig cyrsiau yng Nghanolbarth a De Cymru. Cynigir y cwrs dros bum niwrnod (pedair noson) a bydd yn canolbwyntio ar wella hyder a magu sgiliau Cymraeg. Caiff cyrsiau eu teilwra'n unswydd at lefel y dysgu, y math o waith a'r math o sector. Bydd yn addas i ddysgwyr sydd wedi cyrraedd o leiaf lefel Ganolradd (B1), siaradwyr dihyder a siaradwyr Cymraeg hyderus sydd angen gwella eu sgiliau. Gellid cynnal rhai cyrsiau i ddysgwyr nad ydynt eto wedi cyrraedd safon B1.

Sut mae cofrestru ar gyfer Cymraeg Gwaith

Mae Cymraeg Gwaith yn cynnig dewisiadau unigryw a phwrpasol sydd wedi eu teilwra i anghenion cyflogwyr a dysgwyr.

Mae Cymraeg Gwaith yn ategu'r ddarpariaeth Cymraeg i Oedolion prif ffrwd. Gall gweithwyr fynychu cwrs Cymraeg Gwaith i gefnogi eu dysgu a dychwelyd i ddarpariaeth prif ffrwd ar ôl cwblhau cwrs Cymraeg Gwaith.

Mae cyrsiau Cymraeg Gwaith wedi eu hariannu yn llwyr ar sail partneriaeth rhwng y Ganolfan Genedlaethol a'r cyflogwr. Mae ymrwymiad cyflogwyr i sicrhau presenoldeb gweithwyr yn hanfodol. Fel gydag unrhyw hyfforddiant mewn swydd, disgwylir i gyflogwyr gynnal trefniadau i gefnogi'r dysgwr ar ei daith dysgu ar ôl iddo / iddi ddychwelyd i'r gweithle.

Mae cofrestru ar gyfer Cymraeg Gwaith yn hawdd. Mae angen i gyflogwyr gwblhau ffurflen cofrestru sydd ar gael ar dysgucymraeg.cymru. Ar ôl i chi anfon y ffurflen atynt, bydd un o aelodau'r tîm Cymraeg Gwaith yn cysylltu â chi i drafod sut orau i symud ymlaen.





Ein Gweledigaeth

Trustworthy

"I wneud De Cymru'n ddiogelach wrth leihau risg.

Ein Cenhadaeth

Disciplined

Gwataadaethu anghenion

Gweithio gydag eraill

Wynsbu haniau drwy

Lleihau risg wrth add

Llywyddis i wna

Dik

Medica

ING AWARENESS - REDUC

HAU PERY

04

Manteision Cymraeg Gwaith i'r cyflogwr

Manteision gweithredol

Mae Cymraeg Gwaith yn cynnig nifer o fanteision gweithredol i'r sefydliad:

- cyfleoedd hyfforddiant sy'n gweddu amrediad o anghenion dysgu;
- hyfforddiant wedi ei deilwra i'r gweithle;
- cynllun hyfforddiant wedi ei ariannu yn llwyr;
- cefnogaeth gydag asesu sgiliau.

Buddiannau i'r sefydliad

O gymryd rhan yn y cynllun Cymraeg Gwaith daw nifer o fuddiannau i'r sefydliad. Yn eu plith mae:

- gweithlu a fydd yn gynyddol sgilgar yn ieithyddol;
- cynnydd mewn sgiliau ar draws y sbectrwm sgiliau a chymhwysedd;
- cynnydd yng ngallu'r sefydliad i ddarparu'n ddigonol a chymwys ar gyfer cwsmeriaid/cleientiaid Cymraeg;
- cynnydd yng ngallu'r sefydliad i gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg;
- cyfle i roi gwerth ar sgiliau a chymhwyseddau staff.

Manteision i'r unigolyn

O gymryd rhan yn y cynllun Cymraeg Gwaith daw nifer o fuddiannau i'r unigolion hefyd. Yn eu plith mae:

- cyrsiau sydd wedi eu hanelu ar gyfer dysgu a datblygu ar lefelau penodol;
- cyrsiau sydd wedi eu cynllunio ar sail iaith ac ieithwedd y gweithle;
- dull dysgu dwys fydd yn arwain at gynnydd amlwg yn eu sgiliau Cymraeg;
- hyder cadarn a chynyddol yn eu gallu yn y Gymraeg.



05

Cefnogi gweithwyr ar y daith ddysgu

Er mwyn sicrhau'r canlyniadau gorau posib, mae'n allweddol i gyflogwyr gefnogi gweithwyr ar y daith ddysgu.

Gall gyflogwyr gefnogi gweithwyr trwy sicrhau:

- bod y Gymraeg yn cael ei hystyried yn sgil defnyddiol yn y gweithle
- cynnig cyfleoedd cadarnhaol i ymarfer Cymraeg
- canmoliaeth am gynnydd a llwyddiannau dysgu.

Gall y daith ddysgu fod yn amod swydd benodol ac yn elfen o gynllun datblygiad proffesiynol ffurfiol. Buasai trefn o'r fath yn

gosod rhagor o gyfrifoldeb ar y cyflogwr i ddarparu cefnogaeth ddigonol i staff.

Amser ymarfer

Mae trefnu cyfleoedd i staff ymarfer eu sgiliau Cymraeg newydd hefyd yn bwysig. Gall hynny ddigwydd mewn cyd-destunau gwaith, wrth gwrs. Fodd bynnag, fel rheol, mae cyflogwyr yn trefnu cefnogaeth anffurfiol i staff hefyd. Gall y cyfleoedd hyn gynnwys:

- penodi **mentor personol** sy'n medru siarad Cymraeg i annog a chefnogi'r dysgwr ar ei daith ddysgu;
- trefnu **cyfleoedd cymdeithasol** lle mae staff yn medru ymarfer eu Cymraeg gyda chydweithwyr a sefydlu patrymau defnydd

iaith newydd e.e. grŵp paned-a-sgwrs, cylch cerdded amser cinio, noson gwis, noson gymdeithasol allan ac ati;

- **paru gweithiwr** gyda chydweithiwr Cymraeg rhugl a hyderus, er mwyn derbyn cefnogaeth ac anogaeth yn y gweithle.

Awyrgylch cadarnhaol

Mae creu awyrgylch cadarnhaol er mwyn hwyluso a galluogi'r dysgu yn bwysig hefyd. Mae sicrhau bod negeseuon cadarnhaol ynghylch y Gymraeg ac ymdrechion i'w dysgu yn amlwg i'r holl weithlu yn bwysig. Mae hyn yn cynnwys negeseuon gweledol o ran amlygrwydd y Gymraeg mewn swyddfeydd neu fannau gwaith; ynghyd ag agweddau cadarnhaol ymhlith cydweithwyr.

Mae hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith (HYI) yn un ffordd arferol o gyflwyno a meithrin agweddau cadarnhaol at y Gymraeg ymhlith staff ac mae darparu HYI i staff yn ofyniad statudol yn y Safonau Iaith Gymraeg (Safon 132).

O ran y gweithle, yn ychwanegol at sicrhau amlygrwydd gweledol y Gymraeg, mae'n arfer da i sicrhau bod deunydd darllen Cymraeg cyfoes ar gael i staff mewn mannau cyffredin yn y gweithle. Mae nifer o gyflogwyr – yn enwedig mewn ardaloedd lle mae'r ganran o siaradwyr Cymraeg yn is – yn aml yn neilltuo ystafell neu gornel o swyddfa fel 'gofod' Cymraeg sy'n hwyluso'r dysgu a'r ymarfer.

Trefniadau gwaith

Mae cynyddu sgiliau Cymraeg gweithwyr yn daith sy'n medru eu cymryd o'r man gwaith am gyfnodau amrywiol – o ambell awr yr wythnos hyd at rai misoedd. Mae sicrhau trefniadau adeiladol ar gyfer dychwelyd i'r gweithle yn gallu hybu profiad dysgu a chynnydd mwy cadarnhaol.

Rhoi bri ar y Gymraeg

I ddysgwyr lwyddo mae'n gymorth mawr iddyn nhw pan mae'r sefydliad yn rhoi gwerth a bri ar eu hymdrechion. Mae'n bwysig bod negeseuon cadarnhaol ynghylch gweledigaeth y sefydliad mewn perthynas â'r Gymraeg yn amlwg o fewn diwylliant y corff. Gall hynny gynnwys:

- negeseuon cyson o anogaeth a chefnogaeth gan arweinyddion allweddol drwy ddulliau cyfathrebu mewnol;
- sicrhau bod arweinyddion allweddol yn gosod esiampl eu hunain;
- cyhoeddusrwydd mewnol ac allanol i'r rhaglen hyfforddi a'i weithgareddau – yn ffurfiol ac yn anffurfiol;
- anogaeth gyffredinol gyson i staff i gynyddu a gloywi eu sgiliau iaith; ac
- achlysuron i ddathlu llwyddiannau, e.e. digwyddiadau gwobrwyo ac anrhydeddu.

Mae'r cyfan yn cyfrannu at greu diwylliant sy'n rhoi gwerth ar ddysgu a datblygiad staff.

Adnoddau dysgu

Mae sicrhau bod gan ddysgwyr yr adnoddau

digonol i gefnogi eu dysgu yn allweddol, e.e.

- rhoi mynediad at **lyfrau a deunydd darllen** e.e. gwerslyfrau, geiriaduron, termiaduron sy'n addas a phriodol i'r lefel dysgu.
- sicrhau bod y dysgwyr yn ymwybodol o **ddeunyddiau ar-lein** defnyddiol megis:
 - Porth Termau Cenedlaethol: www.termau.cymru
 - Geiriadur yr Academi: www.geiriaduracademi.org
 - Geiriadur Prifysgol y Drindod Dewi Sant: www.geiriadur.net
- sicrhau bod **meddalwedd gwirio iaith** berthnasol:
 - Cysgliad: www.cysgliad.com
 - Microsoft: www.bangor.ac.uk/cymorthcymraeg/microsoft.php.cy
- bod rhaglen **To Bach** wedi ei osod ar gyfrifiaduron a gliniaduron er mwyn hwyluso ysgrifennu yn y Gymraeg
 - www.interceptorsolutions.com/tobach
 - bod dysgwyr yn ymwybodol o **becyn rhyngwyneb** Microsoft a bod ganddynt y dewis i'w lawrlwytho
 - www.bangor.ac.uk/cymorthcymraeg/microsoft.php.cy



Cyfleoedd i ymarfer

Mae amrywiaeth helaeth o apiau, gwefannau ac adnoddau ar gael i gefnogi sgiliau iaith y gweithlu. Mae annog defnydd ohonynt yn un ffordd o sicrhau bod staff yn ymgyswrtu â chlywed a defnyddio'r Gymraeg ac yn datblygu'n fwy hyderus i ddefnyddio sgiliau newydd yn y gweithle.

Y ffordd orau i ddatblygu sgiliau iaith yw ymarfer. Mae modd ymarfer sgiliau gwrando a deall drwy wyllo neu wrando ar raglenni Cymraeg ar **S4C** neu **Radio Cymru**. Gallwch wneud hynny drwy droi at y teledu neu'r radio neu drwy eu gwasanaethau ar-lein.

S4C: www.s4c.cymru

Gallwch ddefnyddio gwasanaeth 'dal fyny' S4C yn y fan hon: www.s4c.cymru/clic/e_index.shtml

Mae **Dal Ati** yn wasanaeth arbennig gan S4C ar gyfer dysgwyr ar lefel canolradd i uwch. Mae'n cynnig gwybodaeth, geirfa, clipiau a mwy i roi hyder a mwynhad wrth i ddysgwyr symud ymlaen ar y daith i ddod yn rhugl.

Radio Cymru: Mae holl raglenni radio Cymru ar gael o'r wefan www.bbc.co.uk/radiocymru neu gallwch wrando eto drwy www.bbc.co.uk/iplayer

Adnoddau ar-lein

Mae'r Ganolfan Genedlaethol yn datblygu llwyfan digidol newydd fydd yn cynnig ystod o adnoddau i gynorthwyo dysgwyr. Bydd y rhain yn cynnwys:

- Rhaglen o dros 1,000 o gyrsiau dysgu Cymraeg a chyfleoedd dysgu ychwanegol o fewn y gymuned leol;
- Adnoddau dysgu;
- Newyddion a digwyddiadau ar gyfer dysgwyr;
- Tiwtor rhithwir sy'n cynnig awgrymiadau dysgu defnyddiol ar dysgucymraeg.cymru

Say Something in Welsh:

Mae Say Something in Welsh yn gwrs sydd yn canolbwyntio ar gefnogi pobl i siarad a deall Cymraeg. Mae'n osgoi rheolau gramadeg cymhleth ac nid yw'n ymwneud â darllen ac ysgrifennu. Mae modd dysgu ar gyflymder sy'n addas i'r dysgwr, gan ail adrodd yn ôl y galw.

Mae'r dull dysgu wedi ei selio ar yr ymchwil ddiweddaraf o ran dysgu ieithoedd, ac mae'r cwrs yn darparu ffeiliau MP3 i'w lawrlwytho yn rhad ac am ddim. Mae'r cwrs cyntaf (25 o wersi), y sesiynau ymarfer a'r unedau geirfa i gyd yn rhad ac am ddim.

www.saysomethingin.com/welsh/course1

Duolingo:

Mae dysgu gyda Duolingo yn hwyl. Gallwch ennill pwyntiau am atebion cywir, rasio yn erbyn y cloc, ac yna symud i'r lefel nesaf, a'r cyfan ar gyflymder dysgu o'ch dewis. Mae'r gwersi pytiog, effeithiol yma yn gweddu i'r dim i bobl brysur sydd byth yn llonydd. Mae pob gwers yn cynnwys heriau siarad, gwrando, cyfieithu ac atebion dewis lluosog.

www.duolingo.com/course/cy/en/Learn-Welsh-Online



Apiau Cymraeg, i ddysgu Cymraeg ac am y Gymraeg

Mae rhestr o apiau amrywiol wedi ei chrynhai gan Lywodraeth Cymru ac mae modd gweld y rhestr drwy ddilyn y ddolen: <http://cymraeg.llyw.cymru/apps?tab=apps&lang=en>

I ddysgu mwy mae'n bosib y bydd gan ddysgwyr ddiddordeb penodol yn yr apiau canlynol sydd ar gael ar gyfer teclynau Apple neu Android. Dyma ambell awgrym am apiau da a dibynadwy.

Ap: Cwrs Mynediad – ar gyfer dechreuwyr mae'r ap yma yn dilyn dosbarthiadau a gwerslyfr Cymraeg i Oedolion. Mae'n mynd i'r afael â'r sefyllfaoedd pob dydd ac yn paratoi'r dysgwr i fedru cyfrannu'n rhugl mewn sgysiau. Mae'r esiamplau sain a'r ymarferion yn rhoi sylw penodol i ynganu, er mwyn rhoi hyder i'r dysgwr ei fod yn cael ei ddeall.

Ap: Cwrs Sylfaen – mae'r Cwrs Sylfaen yn mynd â'r dysgwr i'r lefel nesaf ac mae'n cyflwyno pynciau megis: trafod pethau y maent wedi eu gwneud, barn, y newyddion, gwneud cynlluniau ac yn cyflwyno patrymau a geirfa

newydd. Cafodd yr apiau Mynediad a Sylfaen eu creu gan Brifysgol Aberystwyth ac mae'r esiamplau sain a'r ymarferion ganddynt i gynorthwyo'r dysgwr i wella ei ynganu. Gallwch lawrlwytho 'fersiwn y gogledd' neu 'fersiwn de Cymru'.

Ap: Dal Ati – mae'r ap yma yn cefnogi'r rhaglen ar S4C sy'n cael ei darlledu ar fore dydd Sul. Ceir cynnwys newydd yn wythnosol, sef clipiau gweledol a sain, manylion rhaglen yn ogystal â'r ymarferion iaith holl bwysig. Mae hefyd yn bosib cael opsiwn ail sgrin ar ambell raglen ar S4C. Mae'r ap ar gael yn rhad ac am ddim.



Ap Geiriaduron – dyma eiriadur Cymraeg > Saesneg a Saesneg > Cymraeg sydd hefyd yn gweithio'n wych all-lein. Mae'n rhoi gwybodaeth am genedl enwau a geiriau lluosog, ac yn dad-dreiglo ymhlith pethau eraill. Mae'n hawdd ei ddefnyddio ac mae ar gael yn rhad ac am ddim.

Ap Treiglo – ap defnyddiol sydd yn nodi pa lythyren sy'n newid, neu ba dreigladau i'w ddefnyddio ar ôl geiriau penodol. Defnyddiol iawn er mwyn cael y manylion bach yn gywir. Mae'r ap ar gael yn rhad ac am ddim.

YouTube – Mae llawer o wybodaeth yn Gymraeg ac am y Gymraeg ar YouTube. Lle da i ddechrau yw gwyllo'r clipiau o **Cariad@iaith** i glywed am y profiad o ddysgu Cymraeg a gafodd enwogion ar y gyfres deledu ar S4C.

Tystysgrif Sgiliau Iaith Gymraeg y Coleg Cymraeg/CBAC

Yn ychwanegol at gymwysterau Cymraeg Gwaith mae'r Coleg Cymraeg a CBAC yn cydweithio i ddarparu Tystysgrif Sgiliau Iaith Gymraeg ar gyfer unigolion sydd wedi cyrraedd lefel Hyfedredd (C1).

Datblygwyd y dystysgrif ar gyfer myfyrwyr sy'n astudio yng Nghymru, ddangos tystiolaeth o'u sgiliau iaith a'u gallu i weithio drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae nifer cynyddol o gyflogwyr yn cydnabod y dystysgrif – gan gynnwys Llywodraeth Cymru.

Mae'r Coleg Cymraeg bellach yn gweithio gyda CBAC i gynnig tystysgrif i'r cyhoedd yn gyffredinol, gan gynnwys gweithwyr yn eu man gwaith.

I ennill y dystysgrif rhaid i'r ymgeisydd lwyddo i roi cyflwyniad llafar ar destun proffesiynol a llwyddo mewn tri darn prawf ysgrifenedig – cywiro iaith, trawsieithu ac ysgrifennu rhydd.

Gellir cael mwy o wybodaeth am y dystysgrif yma: www.colegcymraeg.ac.uk/cy/astudio/sgiliauiaith/tystysgrifsgiliau/



Cofiwch rhoi bri ar y Gymraeg yn y gweithle a chefnogi dysgwyr i lwyddo.







06

Sut i fod yn weithle dwyieithog

Ysgogi a rheoli newid

Mae i sefydliad fynd ati i gynyddu sgiliau iaith y gweithlu yn golygu achosi newid.

Gall y newid fod ar lefel yr unigolyn – ei ymwneud â phobl eraill, yn gwsmeriaid, cydweithwyr a rheolwyr. Gall hefyd olygu newid corfforaethol o ran diwylliant y gweithle a statws ieithoedd penodol o fewn y sefydliad.

Un agwedd o'r newid diwylliannol yma yn y blynyddoedd diwethaf yw datblygiad y cysyniad o weithleoedd dwyieithog – gweithleoedd lle anelir at roi'r un gwerth ar y Gymraeg a'r Saesneg fel ei gilydd fel cyfryngau i gyfathrebu'n

ffurfiol ac anffurfiol o fewn y sefydliad.

Mae cyrff sy'n datblygu ethos dwyieithog yn y gweithle yn ceisio meithrin agwedd gefnogol at ddefnyddio'r Gymraeg drwy'r holl weithlu. Gwneir hyn drwy greu a datblygu awyrgylch gadarnhaol a fydd yn ysgogi a hwyluso gweithwyr i ddefnyddio eu Cymraeg yn y man gwaith, mewn cyd-destunau ffurfiol ac anffurfiol fel ei gilydd.

Mae'r Safonau Iaith Gymraeg wedi atgyfnerthu'r datblygiad hwn. Mae'r Safonau Gweithredu yn golygu bod angen i sefydliadau gydymffurfio â Safonau sy'n sicrhau bod modd i weithiwr gynnal agweddau penodol ar ei berthynas gyda'i gyflogwr yn y Gymraeg.

Cafwyd arweiniad ynghylch datblygu gweithleoedd dwyieithog yn y ddogfen 'Hyrwyddo a Hwyluso Gweithleoedd Dwyieithog'¹ a gyhoeddwyd gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg yn 2009. Mae'r ddogfen honno, a luniwyd ar sail profiadau blaenorol rhai sefydliadau, yn annog sefydliadau i:

- sicrhau perchnogaeth ac arweiniad o'r lefel uchaf o fewn y sefydliad, a hwnnw'n arweiniad a rydd fri ar y Gymraeg ac ar weithio'n ddwyieithog;
- pennu cyfrifoldebau i uwch reolwyr dros wahanol agweddau ar y newidiadau arfaethedig, gan gynnwys adnabod 'ysgogwyr' neu 'bencampwyr';

¹ Mae archif o holl ddogfennau Bwrdd yr Iaith Gymraeg ar gael ar www.llgc.org.uk.



- marchnata a hyrwyddo'r newidiadau mewn arferion yn fewnol yn ogystal ag yn allanol;
- cyplysu'r newid â SSI cadarn; a
- llunio rhaglen TG bwrpasol i gefnogi'r newidiadau.

Rhesymeg sylfaenol datblygu gweithle dwyieithog yw sicrhau safon dda gwasanaethau dwyieithog a chefnogi blaenoriaethau polisi cyhoeddus o ran hyfywedd a ffyniant y Gymraeg.

Arwain, annog a chefnogi

Dylid ystyried y newidiadau diwylliannol a gweithredol hyn yn yr un modd ag unrhyw newid arwyddocaol arall o fewn y sefydliad.

Gall pobl fod yn wrthwynebus i newid ar adegau gan godi rhwystrau a gwrthwynebiad. Gall unigolion weld newid yn fygythiad i'w safle o fewn sefydliad ac felly yn gorfod cael eu tywys ar 'daith' i dderbyn newid. Gall y daith gynnwys y camau canlynol:

Osgoi . Cydnabod . Derbyn . Addasu .
Gweithredu

Mae angen i reolwyr fod yn ymwybodol o'r camau hynny wrth ysgogi a chefnogi staff sy'n wynebu unrhyw newid a ddaw i'r gweithle. Mae nifer o fodelau ar gael i reolwyr gynllunio'r broses o newid mewn modd effeithiol.

Model Kotter

Model gydag wyth cam cydnabyddedig i ysgogi, rheoli a chynnal newid o fewn sefydliadau. Yn fras, dywed model Kotter bod angen:

1. Creu ysbryd o fod ar frys.
2. Sefydlu clymblaid arweiniol.
3. Llunio gweledigaeth a blaengareddau strategol.
4. Casglu ynghyd fyddin wirfoddol.
5. Galluogi gweithredu drwy gael gwared ar rwystrau.
6. Cynhyrchu llwyddiannau byrdymor.
7. Cynnal cynnydd cynyddol.
8. Sefydlu'r newid yn norm newydd.

Drwy'r cyfan, swyddogaeth rheolwyr yw arwain, ysgogi a chefnogi er mwyn creu'r newid yn llwyddiannus. Cewch ragor o fanylion am y model hwn ar www.boundless.com.

Mindspace

Datblygwyd MINDSPACE gan y Sefydliad Llywodraethu a Swyddfa 10 Stryd Downing yn 2010.

Yn fyr, mae'r model yn awgrymu bod angen rhoi ystyriaeth i naw ffactor er mwyn dylanwadu'n gadarnhaol ar ymddygiad unigolion a grwpiau.

- Pwy yw'r negesydd (**m**essenger)?
- Beth yw'r cymhelliant i newid (**i**ncentives)?
- Sut mae creu normau newydd (**n**orms)?
- Oes modd cynhyrchu ymatebion diofyn (**d**efaults)?
- Beth yw perthnasedd y newid i'r bobl dan sylw (**s**alience)?
- Beth yw'r cyflyrau priodol mae modd eu datblygu (**p**riming)?
- Beth yw'r cyd-destun emosiynol (**a**ffect)?
- Sut mae annog ymrwymiad cyhoeddus (**c**ommitment)?
- Pa les neu fantais sydd i'r unigolyn o newid (**e**go)?

Datblygwyd y model MINDSPACE i hyrwyddo blaengareddau polisi eang ar lefel genedlaethol. Serch hynny, mae rhai agweddau a all fod o ddefnydd wrth gynllunio ar gyfer cynyddu sgiliau iaith eich gweithlu hefyd. Cewch wybodaeth lawn am y model yma: www.instituteforgovernment.org.uk.

Model ISM

Yr Individual, Social, Material yw'r model a ffafrir gan Lywodraeth yr Alban. Mae'r model yn rhestru nifer o ffactorau sy'n effeithio ar ymddygiad unigolion o dan bob un o'r tair agwedd. Mae rhagor o wybodaeth am y model ISM ar gael ar: www.gov.scot/Publications/2013/06/8511/2

**Mae cyrff sy'n datblygu
ethos y gweithle
dwyieithog yn ceisio
meithrin agwedd gefnogol
at ddefnyddio'r Gymraeg
drwy'r holl weithlu.**

Cymorth a chefnogaeth bellach

Mae cymorth a chefnogaeth bellach ar gael gan dîm Cymraeg Gwaith y Ganolfan Genedlaethol.

cymraeggwaith@dysgucymraeg.cymru
Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol
Heol y Coleg
Caerfyrddin
SA31 3EP
Ffôn: 0300 323 4324

Ewch at dysgucymraeg.cymru am ragor o wybodaeth am y cynllun Cymraeg Gwaith ac i glywed gan gyflogwyr sydd wedi cychwyn ar y daith i fod yn weithle dwyieithog a gweithwyr sydd wedi bod yn dysgu Cymraeg.